General Medical Council

# Crynodeb Blynyddol Sicrhau Ansawdd

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o sut mae sefydliad yn bodloni ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol fel y nodir yn *Promoting excellence: standards for medical education and training*. Mae'n rhoi trosolwg o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd a gynhaliwyd dros gyfnod o flwyddyn a throsolwg o ganfyddiadau, gan gynnwys unrhyw feysydd ymarfer nodedig neu ofynion ac argymhellion rydym wedi'u gosod. Cyhoeddir y crynodeb.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Cyfnod adolygu** | Mawrth 2025 – Chwefror 2026 (Blwyddyn 3 yr 2[il] gylch) |

## Trosolwg o'r canfyddiadau

| **Datganiad ar y canfyddiadau cyffredinol** |
|---|
| Yn sgil cyflwyno'r Holiadur Hunanasesiad (SAQ), a'r eglurhad ar rai pwyntiau yn ystod y cyfarfod SAQ, rydym o'r farn bod Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn bodloni'r safonau a nodir yn *Promoting excellence: standards for medical education and training* y GMC.<br><br>Mae'r gweithgareddau sicrhau ansawdd rydym wedi'u cynnal yn y cylch blynyddol hwn wedi rhoi cyfleoedd da i arsylwi ar sut mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn bodloni ein safonau yn Thema 1: Amgylchedd a diwylliant dysgu; Thema 3: Cefnogi dysgwyr a Thema 4: Cefnogi addysgwyr. |

## Gweithgarwch ansawdd a gynhaliwyd

| | Gweithgarwch | Dyddiad | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyno'r SAQ | 22/03/2025 | Cafodd yr SAQ ei gyflwyno mewn pryd ac roedd yn ymdrin â phob un o'r pum thema yn *Promoting excellence*. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys rhestr o |

The GMC is a charity registered in England and Wales (1089278) and Scotland (SC037750)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | weithgareddau arfaethedig Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe y gallem arsylwi arnynt at ddibenion sicrhau ansawdd.<br><br>Rydym yn fodlon, lle mae angen rhagor o wybodaeth a/neu eglurhad o hyd, y gellir darparu hyn adeg cyflwyno'r SAQ nesaf. |
| 2 | Cyfarfod adborth yr SAQ | 28/05/2025 | Cynhaliwyd y cyfarfod hwn i roi adborth i Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe am yr SAQ a gyflwynwyd ganddi ar gyfer 2025/26, ac i ofyn am eglurhad a gwybodaeth ychwanegol am y cyflwyniad lle roedd angen.<br><br>Buom hefyd yn trafod y gweithgareddau sicrhau ansawdd posibl y gallem ymgymryd â nhw yn ystod y cylch blynyddol hwn. Dewiswyd y gweithgareddau hyn i wella ein dealltwriaeth o brosesau Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe.<br><br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd risg yn ystod y cyfarfod SAQ.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod hwn, rhoddwyd adborth ysgrifenedig i Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe ynghylch yr SAQ a gyflwynwyd ganddi. |
| 4 | Arsylwi ar ddiwrnod datblygu'r gyfadran | 09/10/2025 | Mewn trafodaethau yn y cyfarfod SAQ, awgrymodd yr ysgol fod y gweithdy'n ddigwyddiad yr oedd yn arbennig o falch ohono, ac roeddem ninnau'n cytuno y byddai'n ffordd ddiddorol o wella ein dealltwriaeth o sut mae addysgwyr yn cael eu hyfforddi i helpu myfyrwyr niwrowahanol.<br><br>Yn gyffredinol, roeddem yn teimlo bod y gweithdy'n llawn gwybodaeth ac yn bodloni'r nodau a'r amcanion a anfonwyd atom ymlaen llaw. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn ymgysylltu'n helaeth, a chafwyd llawer o drafodaethau a dadleuon brwd am brofiadau personol, addasiadau, diogelwch cleifion a'r pynciau trafod a bennwyd ymlaen llaw. Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle gwych i rwydweithio, gyda llawer o sgyrsiau yn y sesiynau ac oddi allan iddynt. Fel arsylwyr, roedd llawer o wersi defnyddiol i ni hefyd er mwyn inni ddatblygu ein dysgu ein hunain am niwrowahaniaeth, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r hwyluswyr am hynny. |

**Y System Adrodd ar Ansawdd (QRS)**

Rydym yn defnyddio’r QRS i fonitro pryderon a godir gan sefydliad pan fyddant yn canfod nad yw ein safonau’n cael eu bodloni mewn amgylchedd addysg a hyfforddiant. Caiff pryderon eu rheoli’n lleol gan y sefydliad cyfrifol hyd nes y cânt eu datrys.

| Gweithgarwch | Dyddiad | Crynodeb |
| --- | --- | --- |
| Y System Adrodd ar Ansawdd (QRS) | Parhaus | Nid oes gan Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe unrhyw eitemau agored ar y QRS ar hyn o bryd.<br><br>Fodd bynnag, mae’r ysgol yn ymwneud â’r system QRS ac yn parhau i roi diweddariadau rheolaidd a manwl. Rydym yn dawel ein meddwl bod ein trothwyon ar gyfer adrodd drwy’r QRS wedi’u gwreiddio ac y cedwir atynt. |

**Yr Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA)**

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad cydymffurfio ar gyfer prawf gwybodaeth gymhwysol (AKT) yr MLA ar 17/06/2024 a’r asesiad sgiliau clinigol a phroffesiynol (CPSA) ar 26/04/2024: https://www.gmc-uk.org/education/mla-compliance-reports

Rydym yn monitro ein canfyddiadau o’r adroddiadau hyn i wirio cynnydd mewn ysgolion meddygol.

| Gweithgarwch | Dyddiad | Crynodeb |
| --- | --- | --- |
| Cydymffurfio â’r MLA | Parhaus | Cafodd Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe 20 argymhelliad o adroddiadau cydymffurfiaeth yr MLA, a chafodd 11 ohonynt eu datrys yn dilyn diweddariadau gan yr ysgol yng nghylch 2024/25.<br><br>Mae gan Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe 9 argymhelliad yn weddill ac maent yn cael eu monitro drwy’r QRS.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio gydag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe i wneud yn siŵr eu bod yn gwreiddio cydymffurfiaeth â’r MLA ac yn cadw at hynny. |

| Y camau nesaf |
| --- |
| Rydym wedi asesu ymgysylltiad y sefydliad â'n prosesau sicrhau ansawdd rhagweithiol ac o ganlyniad mae'r sefydliad bellach yn gymwys i symud o gyflwyno SAQ bob blwyddyn i gyflwyno bob dwy flynedd, felly bydd cyflwyniad nesaf yr ysgol ym mis Mawrth 2027. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw'n rheolaidd a byddwn yn cynnal gweithgareddau ansawdd i wneud yn siŵr bod ein safonau'n cael eu bodloni.<br><br>Mae ein hymatebion i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr SAQ yn rhoi adborth ar bob thema i helpu Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe i gwblhau'r diweddariadau i'r holiadur yn eu cyflwyniad nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau ar:<br><br>**Thema un** – unrhyw ddiweddariadau pellach ar yr Ysbyty Rhithwir a mentrau efelychu eraill sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys y senario realiti rhithwir gwyliwr gweithredol (LEC1-05); unrhyw ddiweddariadau ar ailstrwythuro gwasanaethau proffesiynol a allai olygu newidiadau i gymorth llyfrgell y brifysgol (LEC1-07).<br><br>**Thema dau** – diweddariad pellach ar y cynlluniau i HSL ac Arweinwyr Ymlyniadau Arbenigol ymweld â diwrnodau archwilio adrannau unigol i roi adborth am leoliadau clinigol ac a gafwyd unrhyw adborth (EGL2-03); unrhyw wybodaeth bellach am waith Arweinydd Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yr Ysgol a benodwyd yn ddiweddar ac unrhyw newidiadau y maent wedi'u rhoi ar waith (EGL2-04); diweddariad ar yr adolygiad o'r dogfennau sy'n ymwneud â phrosesau Addasrwydd i Ymarfer (EGL2-08); diweddariad ar weithredu'r polisi ar gyfer ystyried materion Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y broses dderbyn o fis Medi 2025 (EGL3-02).<br><br>**Thema pump** – diweddariad ar y cynlluniau i ehangu'r ystod o addysgu proffesiynoldeb gan gysylltu'n agosach ag achos yr wythnos neu floc clinigol fel rhan o'r adolygiad o'r cwricwlwm (DCA1-04); diweddariad ar y gwaith y mae Arweinydd Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yr Ysgol a hyrwyddwr Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd ar gyfer y rhaglen Meddygaeth i Raddedigion wedi bod yn ei wneud i wreiddio cyfranogiad gwirfoddolwyr mewn rhaglenni gweithwyr iechyd proffesiynol (DCA2-01). |

## Ymateb y sefydliad

Mae gan y sefydliad hawl i ymateb i'r AQAS; os ydynt wedi ymateb, bydd yr ymateb yn cael ei gynnwys isod.

| Ymateb y sefydliad |
| --- |
| |